Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Craffu ar y Cytundeb Cydweithio: dwy flynedd yn ddiweddarach

## Papur briffio

Rhagfyr 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6328**
E-bost: **senedd.research@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Craffu ar y Cytundeb Cydweithio: dwy flynedd yn ddiweddarach

## Papur briffio

Rhagfyr 2023

**Golygydd:**
Michael Dauncey

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar **8 Rhagfyr 2023** gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ac Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth AS, ynghylch y cynnydd o ran cyflawni'r **Cytundeb Cydweithio**. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol y gall y Pwyllgor eu trafod.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir ar y Cytundeb ..... 1**

Mecanweithiau gweithredu a chraffu ..... 2

Goblygiadau a monitro'r gyllideb ..... 3

**3. Digartrefedd ..... 4**

**4. Ardollau twristiaeth lleol ..... 5**

**5. Gofal cymdeithasol ..... 6**

Cydraddoldeb rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol ..... 7

**6. Darlledu ..... 7**

**7. Prydau ysgol am ddim a gofal plant ..... 9**

Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd ..... 9

Darpariaeth y gyllideb ..... 9

Gofal plant ..... 10

Cyllid gofal plant ..... 11

**8. Safonau addysgol ... 11**

**9. Trafnidiaeth gyhoeddus ... 12**

**10. Cwmni ynni sero net ... 13**

**11. Diwygio'r Senedd ... 14**

**12. Ysgol Lywodraethu Genedlaethol ... 16**

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar **8 Rhagfyr 2023** gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ac Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth AS, ynghylch y cynnydd o ran cyflawni'r **Cytundeb Cydweithio** ("y Cytundeb"). Mae hyn yn dilyn sesiynau blaenorol ar **9 Rhagfyr 2022** a **24 Mawrth 2023** a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor gyda'r Prif Weinidog ac Adam Price AS, cyn-Arweinydd Plaid Cymru.

Cyhoeddwyd y Cytundeb Cydweithio ym mis Rhagfyr 2021 gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ac mae'n cynnwys 46 o ymrwymiadau. Nid yw'r papur briffio hwn yn ymdrin â phob un o'r rhain ond mae'n canolbwyntio ar faterion allweddol y gall y Pwyllgor eu trafod.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad blynyddol 2022-23** ar y cynnydd o ran y Cytundeb Cydweithio. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad ar gael cyn paratoi'r papur briffio ar gyfer y Pwyllgor a dylid darllen y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd.

Gellir gwylio sesiwn y Pwyllgor yn fyw, neu ar alw, ar **SeneddTV**. Bydd **trawsgrifiad** ar gael ychydig ddyddiau wedyn.

# 2. Cefndir ar y Cytundeb

Cyhoeddwyd y **Cytundeb Cydweithio** gan y Prif Weinidog ac Adam Price AS, Arweinydd Plaid Cymru ar y pryd, ar **1 Rhagfyr 2021**. Ei amcan datganedig yw cyflawni ymrwymiadau diffiniedig, yn seiliedig ar feysydd o ddiddordeb cyffredin a gwerthoedd a rennir, dros gyfnod o dair blynedd.

Mae 46 o ymrwymiadau wedi'u strwythuro o amgylch pedair thema drawsbynciol (mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi nifer yr ymrwymiadau o dan y thema honno):

- Gweithredu radical mewn cyfnod heriol (11);
- Cymru wyrddach i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur (10);
- Diwygio sylfeini Cymru (12);
- Creu Cymru unedig, sy'n decach i bawb (13).

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad blynyddol 2021-2022 ar y Cytundeb Cydweithio**. Roedd y ddogfen hon yn crynhoi camau

gweithredu o dan y pedair thema ac yn cwmpasu'r rhan fwyaf ond nid pob un o'r 46 o ymrwymiadau. Ar **23 Mawrth**, pwysleisiodd y Prif Weinidog i'r Pwyllgor natur tair blynedd y rhaglen ac felly nad oedd popeth wedi'i weithredu ac nad oedd adroddiad wedi'i lunio yn y flwyddyn gyntaf.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad blynyddol 2022-23** ar 1 Rhagfyr. Er nad oedd ar gael cyn ysgrifennu'r papur briffio hwn, gellir gweld bod adroddiad 2022-23 yn cynnwys diweddariad ar 43 o'r 46 ymrwymiad. Y tri ymrwymiad nad oes unrhyw wybodaeth amdanynt yw:

- sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi nod ar y cyd [Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru] i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a chytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023;
- sefydlu "Unnos", cwmni adeiladu cenedlaethol, i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy; a
- gwaith parhaus i ddarparu "gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy".

Mae llawer o ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio yn cael eu hadlewyrchu'n uniongyrchol yn y **Rhaglen Lywodraethu**. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **adroddiad blynyddol** ar gynnydd yn erbyn ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Gorffennaf 2023. Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd **gyfres o erthyglau ar y Rhaglen Lywodraethu** ym mis Medi 2023.

## Mecanweithiau gweithredu a chraffu

Ar adeg ymrwymo i'r Cytundeb (Rhagfyr 2021), cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddogfen "mecanweithiau"**, a oedd yn nodi sut y byddai'n gweithio gyda Phlaid Cymru.

Mae'n esbonio rolau'r ddau "**Aelod Dynodedig**" (Siân Gwenllian AS a Cefin Campbell AS) ac mae'n nodi'r Cod Ymddygiad ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar God y Gweinidogion. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am "Fwrdd Trosolwg ar y Cyd", ac yn egluro cymorth y gwasanaeth sifil. Mae'r ddogfen yn cadarnhau mai'r Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru fydd yn gyffredinol atebol am y Cytundeb Cydweithio.

Mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi **ymrwymo** i "gyfathrebu'n effeithiol ac yn amserol â'i gilydd gan anelu ar y cyd at sicrhau perthynas 'dim byd annisgwyl' o ran datganiadau a sylwadau ynglŷn â'r Cytundeb Cydweithio".

Mae rhai Aelodau o'r Senedd wedi **gofyn** sut y gall y Senedd graffu'n effeithiol ar y ddau barti i'r Cytundeb Cydweithio, yn enwedig yr Aelodau Dynodedig. Mae'r

Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog wedi cynnal dwy sesiwn flaenorol (ar **9 Rhagfyr 2022** a **24 Mawrth 2023**) i graffu ar y Prif Weinidog ac Arweinydd Plaid Cymru ar y Cytundeb Cydweithio a hon yw'r drydedd sesiwn o'r fath felly. Ym mis Mehefin 2023, dyroddodd y Llywydd **ganllawiau ychwanegol ar weithrediad trafodion y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb Cydweithio** i adlewyrchu safbwynt Plaid Cymru.

## Goblygiadau a monitro'r gyllideb

Mae'r ddogfen "mecanweithiau" yn nodi bod cylch cyllideb tair blynedd yn sail i'r Cytundeb Cydweithio. Y cyfnod hwn yw 2022-2023, 2023-24 a 2024-25, sef hyd y cyfnod Adolygu Gwariant tair blynedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar adeg **cyllideb 2022-23**.

Roedd **papur ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mawrth 2023 ar Gyllideb Derfynol 2023-24** yn nodi bod cyfnod Adolygu Gwariant 2022-25 yn nodi cyllid ar gyfer 13 o feysydd penodol yn y Cytundeb Cydweithio. Er bod **y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cyfeirio atynt ym mis Ionawr 2022**, nid yw'n glir beth yw'r 13 o feysydd hyn. Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 ym mis Ionawr 2022, **yn flaenorol gofynnodd y Pwyllgor Cyllid** i Lywodraeth Cymru roi gwybodaeth am y 13 o feysydd hyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r wybodaeth hon eto **er ei bod wedi cytuno i wneud hynny**.

Dywedodd y papur ar y cyd y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ailflaenoriaethu fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-2024, gan geisio:

> …rhyddhau arian o bortffolios i adleoli cyllid i fynd i'r afael â phwysau ar wasanaethau cyhoeddus, diogelu'r Rhaglen Lywodraethu – y mae'r Cytundeb Cydweithredu yn rhan allweddol ohoni – a helpu i liniaru effeithiau'r argyfwng costau byw.

Ychwanegir bod y 46 o ymrwymiadau yn rhaglen bolisi a rennir y Cytundeb Cydweithio wedi'u diogelu yn ystod y broses hon, gan arwain at ddiogelu'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y 13 o feysydd penodol a nodwyd yn Adolygiad Gwariant 2022 i 2025. Nid oeddent yn ddarostyngedig i ailflaenoriaethu, gostyngiadau mewn cyllid na phroffil cyflenwi diwygiedig, yn wahanol i feysydd gweithgarwch eraill.

Yn ogystal â phwysau parhaus tâl yn y sector cyhoeddus, roedd y papur ar y cyd yn dweud bod y meysydd a ganlyn wedi'u nodi fel meysydd blaenoriaeth i Blaid Cymru yn 2023-24 i'w trafod os bydd rhagor o symiau canlyniadol gan Lywodraeth y DU:

- Cynnydd yn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg;
- Ymestyn cymhwysedd i Brydau Ysgol Am Ddim mewn ysgolion uwchradd;
- Ymestyn y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau.

Yn ôl y papur, trafodwyd mewn cyfres o gyfarfodydd dwyochrog rhwng gweinidogion unigol ac Aelodau Dynodedig gyllidebau portffolio unigol a sicrhawyd bod yr ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio ar y trywydd iawn a bod y cyllid ac adnoddau priodol ar waith i gyflawni'r rhaglen bolisi a rennir. Aeth ymlaen i ddweud, "byddwn ni'n parhau i fonitro'r rhain yn agos fel rhan o gyfarfodydd dwyochrog rheolaidd yn ogystal â'r Cyd-bwyllgorau Polisi a'r Bwrdd Trosolwg".

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar 19 Rhagfyr. Mae eisoes wedi **dweud bod y gyllideb ddatganoledig Cymru o dan "bwysau na welwyd ei debyg erioed o'r blaen"** ac wedi **cymryd arian o rai o gyllidebau 2023-24 yn ystod y flwyddyn** er mwyn darparu arian sydd ei angen ar gyfer y GIG a Trafnidiaeth Cymru.

## 3. Digartrefedd

**Ymrwymiad: Rhoi diwedd ar ddigartrefedd** – Os yw pobl yn cael eu gwneud yn ddigartref, dim ond am gyfnod byr yn unig y dylai hynny fod, a dylai'r achosion fod yn brin a pheidio ag ailddigwydd. Byddwn yn diwygio cyfraith tai, yn defnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr ac yn gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ynghylch **Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**, gan nodi diwygiadau deddfwriaethol er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

Nid yw cynigion y Papur Gwyn wedi'u costio'n llawn eto. Nodir yn yr **Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft** fel a ganlyn: "rydym yn disgwyl y bydd angen cryn fuddsoddiad er mwyn rhoi'r diwygiadau ar waith." Nodir hefyd y bydd fersiynau o'r Asesiad yn y dyfodol yn rhoi rhagor o fanylion.

Y Grant Cymorth Tai yw prif ffrwd ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer atal digartrefedd a chefnogi byw'n annibynnol. Canfu **Ymchwil a wnaed gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd** fod pob £1 a fuddsoddir yng ngwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn sicrhau arbedion net o £1.40 ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cododd Llywodraeth Cymru **ddyraniad y Grant Cymorth Tai** yn 2021-22 o £127 miliwn i £167 miliwn. Arhosodd yn £167 miliwn yn 2022-23 a 2023-24, ac mae'n aros yr un fath yn y gyllideb ddrafft ddangosol ar gyfer 2024-25.

Mae Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru wedi cynnal arolwg a ganfu fod 75 y cant o ddarparwyr cymorth tai yn gwneud colledion, a bod 77 y cant yn debygol o leihau capasiti gwasanaethau os bydd y Grant Cymorth Tai yn parhau i fod wedi'i rewi yn 2024-25. Mae'r sefydliadau'n dadlau bod rhewi'r dyraniad yn golygu toriad o £24 miliwn mewn termau real ers 2011-12.

Yn ystod sesiwn graffu gyffredinol ar 9 Tachwedd 2023, **dywedodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, wrth y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**:

> I really would have loved to have put more money into the Housing Support Grant. This is of absolutely no comfort to anyone in the sector, but it was quite a struggle to keep the uplift that we had put in. We put quite a considerable uplift in the year before, and, frankly, I had to sharpen my elbows quite vigorously in order to keep the uplift.

# 4. Ardollau twristiaeth lleol

**Ymrwymiad: Ardollau twristiaeth lleol** – Cyflwyno ardollau twristiaeth lleol gan ddefnyddio deddfwriaeth diwygio cyllid llywodraeth leol.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymgynghori** ar gynigion i gyflwyno ardoll ddewisol ar ymwelwyr dros nos i ddarparu "ffordd o gynhyrchu refeniw i awdurdodau lleol ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith lleol sy'n rhan annatod o'r profiad i ymwelwyr". Barn Llywodraeth Cymru yw y byddai hyn yn cydnabod yr effaith y mae ymwelwyr yn ei chael mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ac yn "cynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr".

Mae'r **dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** yn dangos bod 78 y cant o'r ymatebwyr "yn anghytuno y dylai awdurdodau lleol gael pwerau disgresiynol i godi ardoll ymwelwyr er mwyn cynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau

a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr". Roedd y dadansoddiad hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a ymhelaethodd ar y rhesymau y tu ôl i'w barn ar y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr agwedd leol neu ganolog ar weithredu, yn hytrach na gweithredu'r ardoll ei hun.

Hefyd, gwnaeth Llywodraeth Cymru **gomisiynu arolwg** (a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023) i ddeall barn trigolion Cymru a defnyddwyr gwyliau domestig yn y DU am yr ardoll arfaethedig. Cwblhawyd yr arolwg gan 2,558 o ymatebwyr, y mae 1,005 ohonynt yn byw yng Nghymru. Roedd y prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

> Pan gyflwynwyd y cysyniad o 'ardoll ymwelwyr' mewn man lle maent yn mynd ar wyliau neu yn eu hardal, roedd y cyhoedd yn y DU yn fwy cadarnhaol na negyddol – roedd 45% yn gadarnhaol, a 25% yn negyddol…
>
> Er bod yr ymatebion yn fwy cadarnhaol na negyddol, mae'n bwysig nodi pan gafodd yr ardoll ymwelwyr ei throi o fod yn ymrwymiad haniaethol (h.y. i dwristiaid gyfrannu at ardaloedd twristiaeth) i gysyniad diriaethol (ardoll ymwelwyr gwirioneddol mewn ardaloedd y maent yn ymweld â nhw neu'n byw ynddynt), mae negyddoldeb yn cynyddu, ac i rai ymatebwyr, roedd negyddoldeb yn amlwg.

# 5. Gofal cymdeithasol

**Ymrwymiad**: Dyfodol gofal cymdeithasol – Sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein nod ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gan barhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Cytuno ar y cynllun gweithredu erbyn diwedd 2023.

Byddwn yn parhau i integreiddio iechyd a gofal yn well a gweithio tuag at sicrhau cydraddoldeb o ran cydnabyddiaeth a thâl i weithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd.

*[Nid oes diweddariad yn adroddiad blynyddol Cytundeb Cydweithio 2022-23 ar yr ymrwymiad hwn.]*

## Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol

Dywedodd y Prif Weinidog ac Adam Price AS, Arweinydd Plaid Cymru ar y pryd, wrth y **Pwyllgor ym mis Mawrth 2023** fod y cyd-destun a'r amgylchedd cyllidol wedi newid yn sylweddol iawn, a'i bod yn anochel bod hyn wedi effeithio ar y ffordd y gellid bwrw ymlaen â'r cynigion ynghylch Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol (am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen).

Dywedodd y Prif Weinidog fod y Cabinet wedi cytuno i baratoi cam nesaf gweithredu, gan gynnwys opsiynau sy'n ymwneud â thalu a chyllid ar gyfer gofal cymdeithasol—adfywio gwaith Holtham. Dywedodd Adam Price AS: "we'll be able to share more in due course, when we've come to some interim conclusions at least in terms of the revenue side of the equation".

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol mewn **datganiad ysgrifenedig ar 27 Tachwedd** : "Dros yr wythnosau nesaf, rydym yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cychwynnol".

### Cydraddoldeb rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol

Mae prinder staffio difrifol yn parhau ym maes gofal cymdeithasol a dywedodd y **Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ym mis Tachwedd 2023 fod cyflog isel yn dal i fod yn un o'r rhesymau dros hyn, ynghyd â'r diffyg cydraddoldeb â staff gofal iechyd:

> The difference between somebody who's working in social care as a care assistant and somebody working in the NHS as a care assistant, I think, is £3,000 in terms of pay at the moment. I would like to see that brought down, but, obviously, we're in a very difficult financial situation, as we've discussed at length in this meeting this morning. So, I can't see when that could be done, but, yes, I think they're doing very much the same job, and in order to bring real parity and esteem to the social care sector, they should be treated in the same way as in the NHS.

## 6. Darlledu

**Ymrwymiad: Darlledu** – Ystyried creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru.

Am flynyddoedd lawer, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi datganoli darlledu, sy'n fater a gedwir yn ôl ar gyfer San Steffan. Yn 2021, gwnaeth Pwyllgor blaenorol y Senedd ar Ddiwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu **alw am** ddatganoli rhagor o bwerau ym maes darlledu i Gymru, gan gynnwys rôl ffurfiol wrth bennu ffi'r drwydded, a chyfrifoldeb dros y darlledwr Cymraeg, S4C. Nid oedd yn argymell datganoli darlledu yn gyfan gwbl.

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, **dywedodd Llywodraeth Cymru**:

> Mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn na ddylid datganoli darlledu nac elfennau o ddarlledu. Gallai fod risgiau ariannol sylweddol i ddatganoli'r pwerau hyn i Gymru, heb unrhyw sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo hefyd.

Newidiodd y sefyllfa hon pan gyflwynwyd y **Cytundeb Cydweithio**. Mae'r rhaglen bolisi, a oedd yn cyd-fynd â'r Cytundeb, yn dweud:

> Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i'r Senedd.

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad, **Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru**, gan banel arbenigol. Sefydlwyd y panel, o dan gadeiryddiaeth y darlledwr Mel Doel a'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones, ym mis Mehefin 2022 i fwrw ymlaen ag ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i "archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru".

Daeth y panel i'r casgliad bod ar y sector:

> angen corff annibynnol o arbenigedd ar y sector hanfodol hwn – Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol – i gynyddu tryloywder a gwelededd ar lefel Gymreig.

Mae **papur Llywodraeth Cymru** i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 yn nodi:

> Yn 2023-24, mae cyllideb flynyddol o £1m ar gyfer darlledu a £100,000 ar gyfer newyddiaduraeth wedi'i neilltuo, fel y nodir yng nghyllideb y Cytundeb Cydweithio. Bydd y gyllideb ar gyfer darlledu yn cefnogi gweithgarwch parhaus y Panel Arbenigol ar Sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, gan gynnwys gweithgarwch a gwariant ymchwil parhaus sy'n cyd-fynd â'i argymhellion a gaiff eu cyhoeddi yn 2023.

Mae'r safbwynt swyddogol yn parhau nad oes penderfyniad ar weithredu argymhellion yr adroddiad wedi'i wneud, ond **adroddodd y BBC ym mis Medi 2023** na fyddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu Awdurdod Darlledu Cysgodol.

# 7. Prydau ysgol am ddim a gofal plant

**(Canolbwyntio ar danwariant mewn cyllidebau ar gyfer y ddau ymrwymiad allweddol hyn)**

**Ymrwymiad: Prydau ysgol am ddim** – Ymestyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd, dros oes y cytundeb hwn.

**Ymrwymiad: Gofal plant** – Ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwy flwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

Mae **Llywodraeth Cymru'n dweud** y bydd holl blant ysgolion cynradd Cymru yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024. Nid yw'r union amserlen yn glir, h.y. a yw hynny'n golygu mis Ionawr 2024, mis Gorffennaf 2024 neu fis Rhagfyr 2024.

Wrth weithredu'r polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar blant iau ysgolion cynradd yn gyntaf. Dechreuodd rhai disgyblion ym mlwyddyn Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 eu cael ym mis Medi 2022 a **dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg bryd hynny** y byddai'r mwyafrif yn eu cael o fis Ebrill 2023. Dywedodd hefyd y byddai prydau ysgol am ddim yn cael eu hymestyn i bob blwyddyn arall yn yr ysgol gynradd o fis Medi 2023. Mae'r union amserlen ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ym Mlynyddoedd 3, 4, 5 a 6, ar draws pob awdurdod lleol, yn aneglur.

### Darpariaeth y gyllideb

Ar ddechrau'r **cyfnod gwariant tair blynedd presennol** (2022-23 i 2024-25), dyrannodd Llywodraeth Cymru £200 miliwn dros dair blynedd i weithredu'r polisi: £40 miliwn yn 2022-23, £70 miliwn yn 2023-24 a £90 miliwn yn 2024-25. Roedd tanwariant wedi'i ragweld yng nghyllideb 2022-23 a defnyddiwyd £11 miliwn i barhau â phrydau ysgol am ddim yn ystod cyfnodau gwyliau ar gyfer Nadolig 2022 a Chwefror 2023 (gweler Nodyn Excel 41 o **Setliad Llywodraeth Leol 2023-24**).

Mae tanwariant eto yn 2023-24 a chymerwyd £11.5 miliwn o'r gyllideb fel rhan o'r arbedion sydd eu hangen i ariannu gwariant ychwanegol ar gyfer y GIG a Trafnidiaeth Cymru (a gyhoeddwyd ym mis **Hydref 2023**).

Dywedodd Llywodraeth Cymru, ar y ddau achlysur, nad oedd unrhyw effaith yn sgil lleihau cyllid ar gyfer cyflawni'r rhaglen (2022-23: Y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Ionawr 2023**, 2023-24: **Diweddariad Llywodraeth Cymru ar sefyllfa ariannol 2023-2024** ym mis Hydref 2023.)

Dywedodd Plaid Cymru pan oedd Adam Price yn Arweinydd ei bod **am ymestyn** darpariaeth gyffredinol ymhellach i ddisgyblion ysgolion uwchradd erbyn mis Ebrill 2027, er nad yw hyn yn y Cytundeb Cydweithio. Cafodd ei adlewyrchu yn y tri maes a nodwyd yn y **papur ar y cyd ym mis Mawrth 2023** fel blaenoriaeth i Blaid Cymru os bydd unrhyw gyllid ar gael yn y dyfodol.

## Gofal plant

Ledled y DU, mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn cymhwystra ar gyfer gofal plant cyn ysgol am ddim yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i "ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg" wedi cael ei ailddatgan yn y **Cytundeb Cydweithio** diweddaraf ym mis Rhagfyr 2021.

Mae **Cynnig Gofal Plant** Llywodraeth Cymru yn golygu bod y rhan fwyaf o rieni sy'n gweithio, o 2019 ymlaen, wedi bod yn gymwys i gael 30 awr o ofal plant yr wythnos am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed, a hynny ar gyfer 48 wythnos y flwyddyn. Ei **brif bwrpas** datganedig yw "helpu rhieni, mamau yn arbennig, i ddychwelyd i'r gwaith neu i gynyddu'r oriau y maent yn eu gweithio". Mae'r 30 o oriau hyn yn gyfuniad o 10 awr o addysg blynyddoedd cynnar ynghyd â hawl i 20 awr o ofal plant. Mae cymhwystra wedi'i ymestyn yn ddiweddar i gynnwys rhai rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r rhaglen **Dechrau'n Deg** ar wahân ac er 2007 mae wedi darparu gofal plant am ddim i rieni plant 2-3 oed am 2.5 awr y dydd, 5 niwrnod yr wythnos yn yr ardaloedd yng Nghymru yr aseswyd mai nhw yw'r 'mwyaf difreintiedig'. Fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio**, mae elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei hehangu. Y nod yw darparu hyn ar gyfer pob plentyn 2 oed ac mae'r elfen gofal plant yn **cael ei hehangu fesul cam**. Dechreuodd y cam cyntaf yn 2022, ac mae'r **ail gam yn parhau** drwy 2023-24 a 2024-25.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru **dderbyn mewn egwyddor** argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, **Gwarchod y dyfodol – y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio** (Ionawr 2022),

ynghylch yr angen i "godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd".

### Cyllid gofal plant

Yn ei **adroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2023**, nododd Llywodraeth Cymru:

> Rydym wedi ehangu mynediad at bob un o'r pedair elfen o'r rhaglen Dechrau'n Deg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, gan roi budd i dros 3,100 o blant, ac rydym wedi darparu £46m i helpu i ehangu gofal plant Dechrau'n Deg. Rydym hefyd wedi darparu £70m i wneud gwelliannau ac i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw hanfodol mewn lleoliadau gofal plant, a £3.8m i helpu mwy o ddarparwyr gofal plant i wella eu darpariaeth Gymraeg.

Ym mis Hydref, **nododd Llywodraeth Cymru**:

> Rydym yn rhyddhau £16.1m o'r cyllidebau sy'n cefnogi gweithgareddau'r Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn wedi'i ryddhau o ganlyniad i ragolygon wedi'u diweddaru ar y nifer sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant i Gymru.

## 8. Safonau addysgol

**Ymrwymiadau**: Mae nifer o ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio sy'n ymwneud ag addysg oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys diwygio'r flwyddyn ysgol; diwygio cymwysterau; addysgu cyflenwi; Rhwydwaith Seren; Addysg Gymraeg a hanes Cymru yn y cwricwlwm.

Nid yw'n glir p'un a neu sut y bydd yr ymrwymiadau sy'n ymwneud ag addysg yn y Cytundeb Cydweithio yn cefnogi **"cenhadaeth genedlaethol"** hirsefydlog Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau addysgol a chodi safonau ysgolion.

**Cyhoeddwyd canlyniadau diweddaraf Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA)** ddydd Mawrth 5 Rhagfyr. Roeddent yn dangos bod sgorau Cymru wedi disgyn ymhellach y tu ôl i weddill y DU a'r cyfartaledd rhyngwladol.

Yn 2015, gosododd Llywodraeth Cymru **darged** bod Cymru yn sicrhau 500 pwynt ym mhob un o'r tri maes – Darllen, Mathemateg a Gwyddoniaeth - erbyn cylch PISA 2021. Mewn **ymateb i gwestiwn ysgrifenedig** ym mis Tachwedd 2022, datgelodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg nad oedd y targed hwnnw'n bodoli mwyach. Beth bynnag, roedd sgoriau Cymru yng nghylch 2022 (a oedd wedi gohirio o 2021

oherwydd y pandemig) yn brin o'r targed blaenorol.

Mae mesurau eraill, y tu hwnt i PISA, yn dangos yr heriau y mae cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu. Er bod cyfyngiadau ar gymariaethau rhwng blynyddoedd oherwydd bod mesurau perfformiad wedi newid a bod arholiadau wedi'u hatal yn ystod y pandemig, o ran amddifadedd TGAU **mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi cynyddu rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion** rhwng 2016 a 2022. Cafodd **data TGAU** 2023 eu cyhoeddi ar 7 Rhagfyr. Gwnaethom ysgrifennu am y data cychwynnol oedd ar gael ar ganlyniadau **TGAU** a **Safon Uwch** 2023 pan gawsant eu cyhoeddi ym mis Awst.

Mae **data ar yr asesiadau personol** a gymerwyd gan ddisgyblion ym Mlynyddoedd 2 i 9 mewn Darllen a Rhifedd hefyd yn fwy negyddol, sy'n cyd-fynd â'r pandemig. Yn 2022/23, roedd disgyblion wedi gostwng 11 mis ar gyfartaledd ym maes darllen Cymraeg a phedwar mis ym maes darllen Saesneg, o'i gymharu â disgyblion o'r un oedran yn 2020/21. Roedd y dirywiad bedwar mis ar gyfartaledd mewn Rhifedd (gweithdrefnol) o'i gymharu â 2018/19, ac roedd cyrhaeddiad yn cyfateb i 6 mis yn uwch mewn Rhifedd (rhesymu) nag yn 2021/22.

Un o **amcanion llesiant yn Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yw "parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi".

# 9. Trafnidiaeth gyhoeddus

**Ymrwymiad**: Trafnidiaeth gyhoeddus – Gofyn i Trafnidiaeth Cymru ymchwilio i sut y gellir datblygu'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De, gan gynnwys sut i ddiogelu coridorau teithio posibl ar hyd arfordir y Gorllewin. Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol yn y gogledd-orllewin a Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer system drafnidiaeth integredig.

Mae galwadau wedi bod ers tro i ailagor rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de yng Nghymru. Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **astudiaeth ddichonoldeb** a oedd yn ymchwilio i gostau a manteision adfer rheilffordd Aberystwyth-Caerfyrddin. Yr amcangyfrif oedd y byddai'n costio £775 miliwn at ei gilydd ar sail prisiau 2017.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau bysiau **TrawsCymru** yn darparu cysylltiad pellter hir rhwng y gogledd a'r de.

Mewn **erthygl yn 2021**, nododd Trafnidiaeth Cymru fod absenoldeb cyswllt rheilffordd mewnol rhwng y gogledd a'r de yng Nghymru oherwydd daearyddiaeth a hanes y genedl. Nodwyd na fyddai adfer hen lwybrau rheilffordd canolbarth a gorllewin Cymru yn addas ar gyfer gwasanaethau rhwng dinasoedd oherwydd y byddai eu natur droellog yn golygu y byddai amseroedd teithio yn llawer hirach na thrwy'r llwybr presennol. Yn ogystal, mae hen welyau rheilffordd wedi cael eu hailddatblygu sy'n gwneud ailadeiladu bron yn amhosibl.

Gwnaeth **y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith graffu ar waith Trafnidiaeth Cymru** ar 22 Tachwedd. Roedd **papur Trafnidiaeth Cymru** ar gyfer y cyfarfod hwnnw yn cynnwys diweddariad ar ei waith ar Astudiaeth Arloesi Coridor Gorllewin Cymru. Roedd yn disgrifio hyn fel "asesiad eang i archwilio sut y gellir gwella hygyrchedd a chysylltedd ar arfordir gorllewin Cymru". Dywedodd:

> Mae'r astudiaeth wedi argymell bod cynigion tymor byr i ganolig ar gyfer gwasanaethau bysiau arhosiad cyfyngedig yn cael eu datblygu gan y gellid darparu'r rhain o fewn 3 blynedd gyda'r nod o sicrhau amser teithio o tua 5 awr (yn cynnwys cyfnewid), gan ategu'r gwasanaethau T1/2 presennol a darparu gwell gwahaniaeth rhwng teithio lleol a rhanbarthol/pell.
>
> Roedd opsiynau rheilffyrdd, er eu bod yn cynnig amseroedd teithio byrrach, yn gostus iawn i'w datblygu a'u gweithredu (mae cynllun rheilffordd ysgafn G-D yn debygol o gostio tua £2Bn) a byddai'n cymryd dros 10 mlynedd i'w gyflawni. Felly, mae'r rhain i gyd yn anodd eu gwireddu, hyd yn oed fel cynllun rheilffordd ysgafn. Roedd yr achos dros Fangor – Caernarfon/Afon Wen yn gryfach oherwydd bod hyd y llwybr yn fyrrach a'r galw uwch. Argymhellwyd cymryd camau pellach i ddiogelu'r llwybr blaenorol rhag datblygiad pellach lle bo hynny'n ymarferol.

## 10. Cwmni ynni sero net

**Ymrwymiad**: Cwmni ynni sero net – Gweithio tuag at greu Ynni Cymru, cwmni ynni o dan berchnogaeth gyhoeddus, dros y ddwy flynedd nesaf, i ehangu'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.

Cyhoeddwyd sefydlu Ynni Cymru ym mis Awst mewn **datganiad i'r wasg ar y cyd** gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a Siân Gwenllian AS, Aelod Dynodedig Plaid Cymru.

Yn y datganiad, nodwyd bod y sefydliad yn cael ei sefydlu "i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru". Nodwyd bod £750,000 wedi'i ddyrannu i 11 o brosiectau "ar ffurf grantiau adnoddau dros y tair blynedd

nesaf". Mewn **ymateb rhyddid gwybodaeth** gan Lywodraeth Cymru, rhoddwyd rhagor o fanylion am yr 11 o gynlluniau.

Ochr yn ochr ag Ynni Cymru, ym mis Hydref 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ymrwymo i sefydlu** datblygwr ynni adnewyddadwy mawr – gan ganolbwyntio'n benodol ar ynni gwynt ar y tir ar ystad goed Llywodraeth Cymru. Byddai arian dros ben sy'n cael ei gynhyrchu drwy'r datblygwr yn cael ei ailfuddsoddi er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru, a "chreu swyddi ynni glân o ansawdd da sydd wedi'u datblygu yma". Yn ôl **gwefan Llywodraeth Cymru**, bydd y datblygwr yn cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2024.

Nid yw'n glir sut y bydd Ynni Cymru yn gweithio gyda'r datblygwr ynni adnewyddadwy mawr.

Ym mis Ionawr, tynnodd y Gweinidog Newid Hinsawdd sylw **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** bod Ynni Cymru a'r datblygwr ynni sydd ym mherchnogaeth y wladwriaeth yn canolbwyntio ar rannau gwahanol iawn o'r sector. Esboniodd fod Ynni Cymru yn ymwneud yn llawer mwy â'r rhannau o'r sector yn y gymuned, eiddo domestig a busnesau fferm.

## 11. Diwygio'r Senedd

**Ymrwymiad**: Diwygio'r Senedd – Cefnogi cynlluniau i ddiwygio'r Senedd, yn seiliedig ar 80 i 100 o Aelodau; system bleidleisio, sydd yr un mor gyfrannol – neu'n fwy cyfrannol - na'r un bresennol ac sydd â chwotâu rhywedd wedi'u pennu mewn cyfraith. Cefnogi gwaith Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd ac yn cyflwyno Bil i ddiwygio'r Senedd 12 i 18 mis ar ôl i'r pwyllgor hwnnw gyflwyno'i adroddiad.

Mae'r gwaith o ddiwygio'r Senedd wedi bod yn mynd rhagddo am nifer o flynyddoedd. Yn 2017, gwnaeth y **Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol yn y Cynulliad argymhellion** ynghylch maint y Senedd a sut dylid ethol Aelodau. Trafodwyd ei argymhellion yn ddiweddarach gan y **Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a gyflwynodd adroddiad** ym mis Medi 2020.

Sefydlwyd y **Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd** ym mis Hydref 2021 i lunio cynigion i'w cynnwys mewn Bil gan Lywodraeth Cymru. **Adroddodd** y Pwyllgor ym mis Mai 2022 gan wneud nifer o argymhellion, a oedd yn cynnwys cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau, bod system cynrychiolaeth gyfrannol

**rhestr gaeedig** yn cael ei defnyddio i ethol Aelodau, a chyflwyno mesurau i annog ethol Senedd fwy amrywiol.

Yn y cyfnod cyn i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad terfynol, rhoddodd y Prif Weinidog ac Adam Price AS, cyn-Arweinydd Plaid Cymru, **ddatganiad safbwynt ar y cyd** ar ddiwygio'r Senedd. Mae **Cadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig** wedi dweud bod y datganiad safbwynt ar y cyd hwn wedi helpu i lywio trafodaethau'r Pwyllgor a'i fod yn cael ei ystyried yn gyfartal â thystiolaeth arall a ddarparwyd i'r Pwyllgor.

Ym mis Medi 2023, cyflwynwyd **Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)** i'r Senedd. Y Bil yw'r cyntaf o **ddau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol** y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio i fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

Mae'r Bil yn cynnig cynyddu nifer Aelodau'r Senedd i 96, cyflwyno system etholiadol cynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig, dychwelyd i dymhorau pedair blynedd y Senedd a sefydlu proses adolygu ffiniau ar gyfer etholaethau'r Senedd. Mae hefyd yn cynnig newid uchafswm nifer y Dirprwy Lywyddion a Gweinidogion Cymru y gellir eu penodi, a byddai'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd ac Aelodau'r Senedd gael eu cofrestru i bleidleisio yng Nghymru.

Disgwylir i'r ail Fil fwrw ymlaen â rhai o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ynghylch gwella amrywiaeth yn y Senedd. Y bwriad oedd iddo gael ei gyflwyno ar 4 Rhagfyr ac roedd disgwyl i'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol wneud **datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr**. Ym mis Medi, nododd Llywodraeth Cymru yn y **Memorandwm Esboniadol** i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) y bydd yr ail Fil yn darparu ar gyfer cwotâu rhywedd a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth mewn cysylltiad ag ymgeiswyr y Senedd mewn deddfwriaeth sydd yn yr arfaeth. **Cyhoeddwyd** yn ddiweddar fod cyflwyno'r Bil hwn wedi'i ohirio.

# 12. Ysgol Lywodraethu Genedlaethol

**Ymrwymiad**: Ysgol Lywodraethu Genedlaethol – Ystyried sut y gallai sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol gyfrannu at yr egwyddor Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un.

Ers i'r Cytundeb Cydweithio gael ei gyhoeddi, ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn gyhoeddus ynglŷn â'r cynnydd o ran sefydlu Ysgol Lywodraethu Genedlaethol.

Mewn ymateb i **gwestiwn ysgrifenedig** ym mis Rhagfyr 2021, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, fod y weledigaeth ar gyfer 'Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru'n Un' yn un o nodau hirsefydlog Llywodraeth Cymru. Dywedodd y byddai Academi Wales, gan adeiladu ar y gwaith ymchwil a wnaeds yn 2018, yn edrych ar y potensial ar gyfer Ysgol Lywodraethu Genedlaethol gan ystyried meysydd sy'n ymwneud â llywodraethu o'r radd flaenaf, llywodraethu cenhedloedd bach a dwyieithog, gweinyddiaeth gyhoeddus ac ymchwil a datblygu mewn gwasanaethau cyhoeddus blaengar.

Wrth ymateb i **gwestiwn ysgrifenedig** arall a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2022, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion y Llywodraeth, rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd 2022, wedi gwneud gwaith cwmpasu cynnar ar y prosiect. Ychwanegodd fod gwaith ymgysylltu gyda rhanddeiliaid allweddol i asesu'r galw ac ystyried opsiynau wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2023, wrth gydnabod yr hinsawdd ariannol bresennol.

Fodd bynnag, ers yr ymateb hwn, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddiweddariad pellach ynghylch sefydlu'r Ysgol.